


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun cyflawni teithio llesol 2024 i 2027

# Tabl cynnwys

Tabl cynnwys ........................................................................ 3

Crynodeb o'r camau gweithredu........................................... 4

1. Cyflawni'r her o newid i deithio llesol ................................ 8

2. Cyflawni'r newid ................................................................ 9

3. Cyflawni'r cynllun............................................................ 11

3.1. Arwain y newid .......................................................... 11

3.2. Cyflawni ar lefel uwch ............................................... 18

3.3. Dangos yr hyn y gall teithio llesol ei gyflawni ............. 25

3.4. Gwneud teithio llesol yn ddewis cyntaf ar gyfer rhagor o deithiau .......................................................................... 27

Atodiad 1 – Rhaglen o gamau gweithredu ........................... 38

© Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru WG 47791,

ISBN Digidol 978-1-83504-740-8

This document is also available in English /
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg /
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

# Crynodeb o'r camau gweithredu

Mae Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn esbonio’r hyn rydym yn ceisio’i wneud gyda’n polisïau a rhaglenni trafnidiaeth yng Nghymru. Mae angen i ni newid ein ffyrdd o deithio. Mae angen llai o geir ar y ffyrdd a chael mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac i gerdded a seiclo. Roedd cyhoeddi’r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yn ymrwymiad yn ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth ac mae’n esbonio’n fanylach sut y byddwn yn rhoi ar waith yr ymrwymiadau yn Llwybr Newydd a’n Cynllun Cenedlaethol a chael mwy o bobl i newid eu ffordd o deithio trwy wneud teithio llesol yn fwy deniadol, yn fwy cynhwysol ac yn haws i'w ddefnyddio.  Isod rydym yn darparu crynodeb o'r prif gamau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r nod hwn yn ein pedwar maes cyflawni allweddol.

## Arwain y newid

**Arweinyddiaeth –** Gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC), byddwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i arweinwyr, swyddogion ac aelodau ar bob lefel o'r llywodraeth ar gyflawni'r newid i deithio llesol.

**Bwrdd Teithio Llesol –** Rydym wedi ail-lunio'r Bwrdd er mwyn herio a chraffu'n annibynnol ar y rhai sy'n darparu teithio llesol gyda'r nod o wella perfformiad a chyflawni mwy.

**Fframwaith asesu a chyllido newydd** – A gaiff ei oruchwylio gan y Bwrdd Teithio Llesol, bydd hyn yn darparu safbwynt gwrthrychol mewn perthynas ag arweinyddiaeth, uchelgais, galluogrwydd a pherfformiad awdurdodau lleol i ysgogi gwelliannau mewn meysydd gwan.

**Cyflawni traws-adrannol** – Gweithio gydag adrannau eraill ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, megis cynllunio, iechyd ac addysg, er mwyn sicrhau bod teithio llesol a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig yn cael eu hystyried ym mhob polisi a rhaglen berthnasol.

**TAN 18 –** Byddwn yn adolygu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 er mwyn ystyried y blaenoriaethau newydd ar gyfer trafnidiaeth yn Llwybr Newydd ac yn Cymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040.

## Cyflawni ar lefel uwch

Byddwn yn cynnal rhaglenni strategol newydd er mwyn mwyafu'r gallu a'r capasiti i gynnal cynlluniau o ansawdd uchel a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y defnydd o deithio llesol.  Mae ein prif gamau gweithredu fel a ganlyn:

**Y Gronfa Teithio Llesol –** Yn amodol ar yr adolygiad nesaf o wariant, rydym am gynnal o leiaf yr un lefel o fuddsoddiad ag sydd gennym ar hyn o bryd dros gyfnod y cynllun hwn.

**Hyb Teithio Llesol TrC** – Yn 2023-24 byddwn yn gwella'r sylfaen sgiliau a chapasiti yn TrC er mwyn cynnwys arbenigedd dylunio teithio llesol a’r gallu i reoli rhaglenni, gyda'r nod o gynnal cynlluniau cymhleth a fydd yn cael effaith sylweddol.

**Academi Teithio Llesol** – Bydd TrC yn datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygu barhaus ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr ledled Cymru, gan adeiladu ar y cyrsiau hyfforddiant a'r deunyddiau cyntaf, ar gael o 2023.

**Fframweithiau caffael cenedlaethol** – Bydd TrC yn gwella mynediad y sector cyhoeddus at ystod ehangach o nwyddau a gwasanaethau teithio llesol drwy wneud y canlynol:

- Cyfeirio at fframweithiau presennol;
- Llywio datblygiad fframweithiau yn y dyfodol;
- Nodi bylchau a mynd i'r afael â nhw ar gyfer gweithgareddau teithio llesol penodol.

**Meithrin dealltwriaeth drwy fonitro a gwerthuso –** Bydd TrC yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso cenedlaethol ar gyfer teithio llesol er mwyn gallu tracio sut ydym yn ei wneud ar sail nifer o ddangosyddion.

## Dangos yr hyn y gall teithio llesol ei gyflawni

Byddwn yn darparu rhaglen o weithgareddau i ddangos y manteision y gellir eu gwireddu drwy fuddsoddi mewn teithio llesol. Mae ein prif gamau gweithredu fel a ganlyn:

**Gweithio mewn ffordd holistig ar sail lle –** Yn 2024-25, byddwn yn dewis tref lle gallwn gynnal ystod eang o ymyriadau, gan gynnwys mewn ysgolion i ddangos yr hyn y gallwn ei wneud o ymrwymo'n llwyr i deithio llesol.

**Cynlluniau Braenaru** – Gan ddechrau yn 2023, mae TrC ar y cyd â'n partneriaid cyflawni, yn sefydlu rhaglen o gynlluniau braenaru er mwyn datblygu strategaethau a modelau cyflawni cydweithredol gwahanol gyda'r nod o annog mwy o newid i deithio llesol.

## Gwneud teithio llesol yn ddewis cyntaf ar gyfer rhagor o deithiau

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiadau mewn teithio llesol er mwyn ein galluogi i gynnal rhaglen gynhwysfawr, gan greu'r amgylchedd cywir a darparu'r sgiliau

a'r wybodaeth i ragor o deithiau gael eu cynnal drwy deithio llesol. Mae ein prif gamau gweithredu fel a ganlyn:

**Hyrwyddo teithio llesol** – Er mwyn cymell ac annog mwy o ddefnydd o deithio llesol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu ymhellach ein gwefan ac ymgyrch gyfathrebu genedlaethol 'Gweithredu ar Newid Hinsawdd';
- Yn 2023-2024, drwy TrC, datblygu pecyn cymorth hyrwyddo i gefnogi awdurdodau lleol i ymgysylltu â'u cymunedau ynghylch teithio llesol;
- Ehangu swyddogaethau MapDataCymru er mwyn ei wneud yn fwy amlbwrpas fel adnodd ymgynghori ac ymgysylltu.

**Creu rhwydweithiau o ansawdd uchel** – Byddwn yn darparu gwell cyfleoedd i bobl gerdded, olwyno a beicio drwy wella ein seilwaith drwy:

- Barhau i fuddsoddi yn Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol i gefnogi awdurdodau lleol i gynnal eu Rhwydweithiau Teithio Llesol;
- Parhau i gyllido gwelliannau i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod llwybrau yn hygyrch i bawb ac yn cefnogi'r economi ymwelwyr;
- Parhau i gydweithio â phartneriaid er mwyn gwneud gwaith uwchraddio at ddibenion teithio llesol i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SNR);
- Datblygu adnodd seiliedig ar fapiau drwy TrC i nodi'r llwybrau sy'n cael yr effaith fwyaf er mwyn blaenoriaethu camau cyflawni;
- Parhau i leihau rhwystrau ffisegol sy'n atal pobl rhag gallu manteisio ar rwydweithiau teithio llesol gymaint â phosibl, gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig;
- Gweithio gyda TrC ac awdurdodau lleol i dreialu 'hangars' beiciau ar y stryd yn 2024 er mwyn darparu unedau diogel i storio beiciau i breswylwyr.

Dros gyfnod y cynllun hwn, rydym yn ymrwymedig i'r canlynol:

- **Cefnogi mynediad at feiciau** – Clustnodi opsiynau i'w wneud yn haws cael at feiciau, gan gynnwys benthyciad beiciau, cynlluniau llogi beiciau, cefnogi mynediad at feiciau ail law rhatach a gwella mynediad at feiciau sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion.
- **Galluogi teithiau aml-ddull** – Cydweithio â phartneriaid cyflawni i barhau i annog teithiau aml-ddull, drwy wella cyfleusterau teithio llesol mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth, gwella llwybrau teithio llesol i gyfnewidfeydd, gwella'r profiad o gario beiciau, sgwteri, pramiau ac ati ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ymgorffori opsiynau teithio llesol mewn cynllunwyr siwrnai.

## Crynodeb o'r camau gweithredu

- **Hyfforddiant teithio llesol** – Cefnogi hyfforddiant teithio llesol i bobl o bob oed, gan ehangu cyrhaeddiad mentrau presennol er mwyn darparu'r sgiliau i fwy o bobl ddewis teithio llesol.
- **Teithio llesol i'r ysgol** – Cefnogi rhaglenni i annog mwy o blant a theuluoedd i fynd i'r ysgol ar droed, ar sgwter neu ar feic, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau teithio llesol yn y rhan fwyaf o ysgolion.
- **Mentrau teithio yn y gweithle** – Byddwn yn cefnogi mentrau i annog arferion cymudo a theithiau cysylltiedig â gwaith cynaliadwy.
- **Gwneud ffyrdd yn fwy addas i deithio llesol** – Drwy ddiweddaru ein strategaeth diogelwch ar y ffyrdd a gwneud ffyrdd yn fwy deniadol i gerddwyr, olwynwyr a beicwyr, gan gynnwys chwilio am ffyrdd i ddarparu'n well ar gyfer y dulliau teithio hyn pryd bynnag y byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith ffyrdd.

# 1. Cyflawni'r her o newid i deithio llesol

Ein nod yw mai teithio llesol fydd y dewis cyntaf a'r dewis naturiol ar gyfer pob taith pob dydd, neu ran ohoni, i lawer mwy o bobl. Mae hyn yn allweddol i fynd i'r afael â'n hargyfyngau hinsawdd a natur ac mae'n cynnig manteision gwirioneddol i iechyd a llesiant y rheini sy'n dewis newid.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae angen inni newid y ffordd y mae pobl yn meddwl am y teithiau y maent yn eu gwneud a chreu amgylchedd ar draws y sector cyhoeddus sy'n sicrhau mai teithio llesol yw un o'r ystyriaethau pennaf wrth greu cynlluniau, boed hynny ym maes cynllunio trafnidiaeth, addysg, iechyd neu ddefnydd tir.

Yn sgil Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn 2013, newidiwyd statws cerdded a beicio yn sylfaenol i ddulliau trafnidiaeth yng Nghymru. Am y tro cyntaf, mae'r sector cyhoeddus wedi gorfod ystyried o ddifrif yr amodau presennol ar gyfer cerdded a beicio yn eu hardaloedd, cynllunio rhwydweithiau cydlynol ar gyfer y dyfodol ac ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr mewn cynlluniau trafnidiaeth eraill. O ganlyniad, mae gwaith cynllunio rhwydweithiau wedi trawsnewid a gwnaed cryn gynnydd o ran adeiladu llwybrau a chyfleusterau teithio llesol, ond nid ydym wedi cyflawni newid sylweddol o ran y ffordd y mae pobl yn teithio yng Nghymru eto.

I gyflawni'r newid angenrheidiol, mae'n rhaid inni drawsnewid y ffordd rydym yn meddwl am deithio llesol. Fel arweinwyr, mae angen inni greu amgylchedd ar draws holl haenau ac adrannau'r llywodraeth sy'n hyrwyddo ac yn ymgorffori cyfleoedd teithio llesol ym mhopeth a wnawn.

I fodloni'r disgwyliadau hyn ym maes trafnidiaeth, byddwn yn cyflawni ar lefel uwch, yn dangos sut y gellir gwneud mwy o deithio llesol, yn hyrwyddo'r manteision ac yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfleoedd i deithwyr sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau teithio llesol.

Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar fynd i'r afael â'r rhwystrau mwyaf i sicrhau'r datblygiadau sydd eu hangen arnom i lwyddo. Mae'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol hwn yn nodi sut y byddwn ni a'n partneriaid yn cyflawni'r newidiadau hyn dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cyflawni'r targedau a nodir yn Llwybr Newydd a Cymru Sero Net. Mae hyn yn golygu erbyn 2030 y bydd angen i 20% yn fwy o siwrneiau teithio llesol gael eu gwneud nag yn 2019. Pan fyddwn yn cael y data cyntaf o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd, byddwn yn pennu targedau penodol ar gyfer teithio llesol, gan sicrhau eu bod yn uchelgeisiol ac yn gyflawnadwy.

# 2. Cyflawni'r newid

Er mwyn sicrhau'r newid dulliau teithio fydd ei angen i gyflawni ein targedau, byddwn yn cynyddu graddfa a chyflymder ein camau gweithredu ar draws y sector.  Byddwn yn gwneud hyn drwy bedwar maes allweddol.

## Arwain y newid

Er mwyn sicrhau'r newid sylweddol hwn mae angen arweinyddiaeth glir a chyson.  Mae ein cynllun yn nodi sut y byddwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i'n harweinwyr ar bob haen o'r llywodraeth ar y manteision a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â theithio llesol, er mwyn creu'r amgylchedd o fewn eu sefydliadau sy'n blaenoriaethu teithio llesol yn eu gwaith cynllunio a chyflawni.  Rydym wedi ail-lunio'r Bwrdd Teithio Llesol gyda chadeirydd annibynnol ac aelodau i graffu ar brosesau cyflawni Llywodraeth Cymru, TrC ac awdurdodau lleol, a'u herio.  Byddant yn goruchwylio fframwaith asesu newydd yn seiliedig ar arweinyddiaeth, ymrwymiad sefydliadol a pherfformiad cyflawni er mwyn llywio'r lefel o gymorth a chyllid i sicrhau ein bod yn cynyddu effaith ein buddsoddiad gymaint â phosibl.

## Cyflawni ar lefel uwch

Rydym wedi cyflawni llawer dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond mae angen inni wneud llawer mwy.  Byddwn yn gwella'r ffordd y caiff y Gronfa Teithio Llesol ei darparu drwy bedair rhaglen strategol newydd; gan ddatblygu sgiliau, cynyddu capasiti, caffael yn effeithiol, a monitro a gwerthuso yn drylwyr. Yn eu cefnogi, ceir ystod o weithgareddau gwella parhaus.

## Dangos yr hyn y gall teithio llesol ei gyflawni

Byddwn yn dewis tref lle gallwn weithio gyda’r awdurdod lleol i ddangos yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn defnyddio ystod o ymyriadau, gan gynnwys mewn ysgolion. Ategir y ffordd hon o weithio ar sail lle gan raglen fraenaru ar gyfer lleoedd eraill o dan arweiniad TrC gyda phartneriaid cyflawni i ddatblygu cynlluniau a dulliau gweithredu arloesol er mwyn gwerthuso eu potensial i sicrhau canlyniadau mwy effeithiol.

## Gwneud teithio llesol yn ddewis cyntaf ar gyfer rhagor o deithiau

Beth bynnag a wnawn i hwyluso teithio llesol, bydd angen i'r teithiwr unigol ddewis gwneud y siwrnai teithio llesol o hyd. Byddwn yn hyrwyddo'r newidiadau a wneir, yn cynnig rhagor o gyfleoedd teithio llesol i bawb drwy rwydweithiau o safon, yn darparu hyfforddiant ac yn cynnwys teithio llesol mewn cynllunwyr siwrnai.  Ategir hyn gan opsiynau teithio

**Cyflawni'r newid**

cynaliadwy gwell drwy gefnogi prosesau cynllunio teithio mewn ysgolion a gweithleoedd a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig.

# 3. Cyflawni'r cynllun

Mae'r adran ganlynol yn rhoi rhagor o fanylion am y ffordd y byddwn yn cyflawni'r nod o wneud teithio llesol yn ddewis cyntaf ac yn ddewis hawdd ar gyfer pob taith gynaliadwy pob dydd, neu ran ohoni, i lawer mwy o bobl. Byddwn yn rhoi sylw penodol i ddeall y rhwystrau a wynebir gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldebau 2010, a mynd i'r afael â nhw, gan adlewyrchu'r ffaith na chaiff llawer eu cynrychioli'n ddigonol ymhlith defnyddwyr dulliau teithio llesol.

Ceir rhestr lawn o'n hymyriadau, ynghyd ag amserlenni, yn Atodiad 1.

## 3.1. Arwain y newid

Rydym wedi pennu cyllideb teithio llesol benodedig sydd wedi cynyddu bumgwaith drosodd yn y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn wedi ein galluogi i wneud cynnydd sylweddol o ran rhoi ymyriadau teithio llesol ar waith. Rydym yn bwriadu cynnal y lefelau buddsoddi hyn o leiaf, yn amodol ar yr Adolygiad nesaf o Wariant, er mwyn adeiladu ar y momentwm a grëwyd dros y degawd diwethaf.

Mae gan arweinwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau rôl hollbwysig i'w chwarae o ran rhoi teithio llesol ar waith, gan bennu cyflymder, graddau ac uchelgais y rhaglenni a gyflwynir ledled Cymru. Mae gennym gyfle gyda'n gilydd i greu ffordd newydd a mwy mentrus o gyflawni ein nodau a'n targedau yn effeithiol. Drwy ein Hacademi Teithio Llesol newydd, y ceir manylion amdani yn adran 3.2.2, byddwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i arweinwyr, swyddogion ac aelodau o lywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol ar gyflawni'r newid i deithio llesol. Bydd hyn yn helpu i greu'r amgylchedd sy'n rhoi teithio llesol wrth wraidd prosesau penderfynu ym mhob rhan o'r llywodraeth.

Gan adeiladu ar yr adnoddau hyn, rydym yn disgwyl i arweinwyr ymgorffori'r flaenoriaeth teithio llesol ym mhob rhan o'u sefydliadau, ac nid dim ond o fewn eu timau trafnidiaeth. Dim ond drwy'r dull gweithredu traws-adrannol hwn ym mhob rhan o'r llywodraeth y gallwn sicrhau newid arwyddocaol ledled cymunedau Cymru.

Rydym wedi gosod disgwyliadau uchel a, thrwy'r Bwrdd Teithio Llesol, byddwn yn herio ac yn craffu ar bob lefel gyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r disgwyliadau hynny.

Mae'n ofynnol i bob corff cyflawni teithio llesol a phartneriaid eraill ledled Cymru gydweithio a'n cefnogi i gyflawni ein

targedau a gwireddu'r manteision ehangach a gynigir i'n cymunedau drwy wneud mwy o ddefnydd o deithio llesol. Mae gan y trydydd sector, byrddau iechyd lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a llawer mwy o sefydliadau sy'n gweithredu'n genedlaethol ac yn lleol rôl hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi Llywodraeth Cymru, TrC ac awdurdodau lleol i arwain a sicrhau newid. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar ein cydberthnasau presennol a byddwn yn gweithio i gryfhau'r cydberthnasau hyn drwy feithrin prosesau cydweithredu pellach.

## 3.1.1. Bwrdd Teithio Llesol

Mae'r Bwrdd Teithio Llesol wedi bod ar waith ers creu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac mae wedi bod yn cynghori Llywodraeth Cymru ar gyflawni teithio llesol. Mae bellach wedi cael ei ail-lunio gyda chadeirydd annibynnol, aelodau annibynnol a chymorth wedi'i ariannu. Bydd y Bwrdd yn ymgymryd â swyddogaeth craffu a herio uwch, mewn perthynas â'r rheini sy'n gysylltiedig â chyflawni teithio llesol. Bydd yn cyhoeddi ei argymhellion a'i gyngor i bartneriaid cyflawni ac yn paratoi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau. Caiff gweithrediad y Bwrdd Teithio Llesol newydd ei adolygu yn 2026.

Fel rhan o rôl graffu'r Bwrdd, byddwn yn gofyn i'r aelodau oruchwylio ein cynlluniau ar gyfer fframwaith asesu newydd. Bydd y fframwaith hwn a amlinellir isod yn llywio ein cymorth a'n cyllid a sicrhau ein bod yn cynyddu effaith ein buddsoddiad gymaint â phosibl.

## 3.1.2. Fframwaith asesu ac ariannu newydd

Er mwyn cynllunio sut i ddatblygu a gwella, mae angen inni ddeall cryfderau, meysydd gwella a galluoedd ein hamgylchedd cyflawni. Drwy gynnwys dyraniad craidd fel rhan o'n Cronfa Teithio Llesol, rydym wedi galluogi awdurdodau lleol i adeiladu eu capasiti mewnol a datblygu llif parhaus o gynlluniau er mwyn gwireddu eu rhwydweithiau teithio llesol. Adlewyrchir elfennau o'r dull gweithredu hwn yn ffordd Active Travel England o ymdrin â chyllid a chyflawni.

Fel sefydliad newydd, mabwysiadodd Active Travel England fframwaith asesu ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr gyda'r nod o nodi'r cryfderau a'r gwendidau o fewn y gadwyn gyflawni a darparu llinell sylfaen ohonynt. Mae fframwaith Active Travel England yn ystyried ffactorau megis arweinyddiaeth, cyd-destun polisi, galluogrwydd, ymrwymiadau cyllido, rheoli asedau a pherfformiad cyflawni. Caiff hunanasesiad cychwynnol ei ddilysu gan Active Travel

England ac yna mae'n ffurfio'r sail i bennu mathau o gymorth a chyllid yn y dyfodol sydd fwyaf addas i bob awdurdod.

Mae ein rhaglen a'n strwythur cyflawni yn fwy datblygedig yng Nghymru, felly rydym yn dechrau o le gwahanol iawn. Mae llawer o'r gwaith paratoi eisoes wedi'i wneud; mae gan bob awdurdod lleol gynlluniau rhwydwaith, dealltwriaeth o'u seilwaith presennol a rhwydwaith wedi'i flaenoriaethu o lwybrau yn y dyfodol eisoes. Rydym hefyd wedi sefydlu cydberthnasau gwaith llawer agosach ar draws y timau cyflawni, drwy'r arweinwyr teithio llesol rhanbarthol o fewn TrC a fforymau eraill, gan alluogi dealltwriaeth dda o rwystrau, cyfyngiadau a chyfleoedd.

Byddwn yn dysgu o broses Active Travel England i ddatblygu fframwaith asesu yng Nghymru, fel y gallwn ddeall sut i greu amgylcheddau cyflawni mwy effeithiol, sy'n blaenoriaethu teithio llesol. Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid yn yr awdurdodau lleol ynghylch sut orau i wneud hyn. Fel rhan bwysig o’n ffocws cryfach ar gael pobl i newid eu ffordd o deithio, byddwn yn helpu awdurdodau lleol i lunio eu cynlluniau cyflawni teithio llesol eu hunain. Fesul cylch Mapio Rhwydweithiau Teithio Llesol, bydd y cynlluniau hyn yn dangos sut y rhoddir blaenoriaeth i lwybrau sy’n sicrhau’r newid moddol mwyaf gyda disgrifiad o raglenni i annog a galluogi’r cymunedau i deithio’n llesol. Ar y cam hwn, rydym yn dueddol o ddefnyddio proses hunanasesu, ar y cyd â data perfformiad a oruchwylir gan y Bwrdd Teithio Llesol annibynnol er mwyn darparu safbwynt gwrthrychol ar arweinyddiaeth, uchelgais, galluogrwydd a pherfformiad. Yn seiliedig ar allbynnau'r asesiad hwn, byddwn yn datblygu meini prawf dyrannu, sy'n atgyfnerthu arferion da ac yn ysgogi gwelliannau mewn meysydd gwan.

Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Teithio Llesol i ddatblygu fframwaith i graffu ar arweiniad a pherfformiad TrC a Llywodraeth Cymru wrth gymhwyso Deddf Teithio Llesol (Cymru) a chyflawni ein gweithgareddau. Y nod fydd darparu lefel debyg o ddealltwriaeth o'n sefydliadau.

## 3.1.3. Rhoi tystiolaeth o'r newid

Mae Llwybr Newydd yn gosod targed i weld 45% o deithiau yn cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus a thrwy gerdded a beicio erbyn 2040. Seilir y targedau hyn gan ddata o Loegr. Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cael ei baratoi a fydd yn darparu set ddata gadarn o batrymau teithio cyfredol yng Nghymru. Mae TrC wedi gofyn i Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol i’w helpu i ddylunio a datblygu’r arolwg. Dechreuwyd ei brofi yn Hydref 2023, a disgwylir dechrau casglu data yn 2024. Canlyniadau’r arolwg llawn cyntaf fydd yn rhoi’r llinell sylfaen ar gyfer monitro'r targed newid dulliau teithio trosfwaol a bennwyd yn Llwybr Newydd.

Ar ôl cyhoeddi'r data cyntaf o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol, byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Teithio Llesol i ddatblygu set gryno o dargedau teithio llesol, yn seiliedig ar batrymau teithio gwirioneddol, gan sicrhau eu bod yn uchelgeisiol ac yn gyflawnadwy. Yn dilyn o'r targedau cenedlaethol, byddwn yn gweithio hefyd ag awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJC) i ddatblygu targedau rhanbarthol neu leol addas.

Er mwyn ein helpu i olrhain ein cynnydd yn ehangach, mae TrC yn datblygu fframwaith monitro cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer teithio llesol sy'n cefnogi fframwaith monitro Llwybr Newydd, a gyflwynir yn adran 3.2.5.

## 3.1.4. Llywodraeth Cymru

Ein rôl yw pennu cyfeiriad polisi teithio llesol yng Nghymru. Mae Llwybr Newydd yn diffinio ein gweledigaeth ar gyfer teithio llesol a'i rôl o ran creu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy sy'n diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn teithio llesol ac, o ganlyniad, sefydlwyd y Gronfa Teithio Llesol, sydd wedi cynyddu bum gwaith ers 2018 i £50m yn 2023/24.

Mae Teithio Llesol yn flaenoriaeth drawslywodraethol, felly mae integreiddio'n effeithiol â pholisïau a rhaglenni ehangach yn hanfodol i wireddu gweledigaeth Llwybr Newydd. Byddwn yn parhau i wella trefniadau gweithio ar draws adrannau, gan roi sylw penodol i gynllunio, addysg, adfywio ac iechyd. Bydd cydnabod buddsoddiad mewn rhaglenni cysylltiedig yn arwain at fanteision ehangach.

Yn ei adolygiad yn 2022, gwnaeth Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar y Ddeddf Teithio Llesol sawl argymhelliad ar gyfer newidiadau uniongyrchol i'r ddeddfwriaeth Teithio Llesol. Rydyn ni eisoes wedi defnyddio Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 i newid Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 trwy roi dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu i gyfyngu arno. Daw hyn i rym erbyn diwedd 2024. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y gall Gweinidogion Cymru estyn dyletswydd awdurdodau lleol yn hyn o beth i awdurdodau cyhoeddus eraill, a byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Teithio Llesol i benderfynu sut orau i ddefnyddio'r pŵer hwn. Byddwn yn ystyried gwneud rhagor o newidiadau pan fydd cyfle deddfwriaethol addas yn codi. Mae llawer o'r gwendidau y mae'r argymhellion hyn yn ceisio eu datrys yn gallu cael eu targedu hefyd drwy ysgogiadau polisi, arweiniad a chyllid, ar y cyd â darparu cymorth ymarferol ac adnoddau. Mae llawer o'r elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni hwn wedi'u cynllunio i gryfhau'r fframwaith cyflawni teithio llesol ehangach hwn. Byddwn yn parhau i adolygu canllawiau

statudol y Ddeddf Teithio Llesol yn weithredol a byddwn yn eu diweddaru drwy Hyb Teithio Llesol newydd TrC (fel y'i nodir yn adran 3.2.3). Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'i fframwaith cyflawni ehangach a byddwn yn cynnal adolygiad pellach yn 2028.

## Cyflawni Traws-adrannol

Mae gan deithio llesol fanteision pellgyrhaeddol, gan amrywio o iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwell, i fuddiannau amgylcheddol ac economaidd, yn ogystal â gwell cynhwysiant. Caiff llawer o adrannau fudd o'r manteision hyn ac, o ganlyniad, mae integreiddio'n effeithiol â pholisïau a rhaglenni eraill yn hanfodol i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru. Ers creu'r Ddeddf, rydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran prif ffrydio teithio llesol, ond mae angen inni wneud mwy a byddwn yn gwneud mwy.

Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth i sicrhau bod teithio llesol a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig yn cael eu hystyried ym mhob polisi a rhaglen berthnasol. Ceir enghreifftiau o'r ffordd y bydd ein gwaith traws-adrannol yn sicrhau mwy o deithio llesol yn ystod cyfnod y cynllun hwn yn y paragraffau canlynol.

Mae newid ein ffyrdd o deithio i deithio llesol yn ffordd bwysig i daclo’r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn adlewyrchu hyn, lle mae Dewisiadau Teithio Gwyrdd yn un o’r pedwar maes gweithredu sy’n sail i’r rhaglen newid ymddygiad.

Mae un o'r cysylltiadau allweddol rhwng polisi trafnidiaeth a defnydd tir. Mae Polisi Cynllunio Cymru a chynllun Cymru'r Dyfodol yn cyfarwyddo prosesau rheoli cynllunio a datblygu strategol a defnydd tir ledled Cymru. Mae'r ddau yn rhoi cryn bwyslais ar yr angen i flaenoriaethu dulliau teithio llesol a chefnogi trafnidiaeth gynaliadwy, drwy hwyluso datblygiadau sydd:

- ar safleoedd yn y lleoliadau cywir, lle y gellir eu cyrraedd yn hawdd drwy ddulliau teithio cynaliadwy a chynaliadwy heb fod angen car;
- wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n eu hintegreiddio â defnydd tir a chymdogaethau presennol;
- yn ei gwneud yn bosibl i bob taith fer o fewn y datblygiad a'r tu hwnt iddo gael ei gwneud yn hawdd ar droed neu ar feic.

Byddwn yn adlewyrchu hyn y tro nesaf y byddwn yn diweddaru'r canllawiau cynllunio ar drafnidiaeth, gan lywio gwaith cynllunio trafnidiaeth mewn datblygiadau newydd. Bydd hyn yn atgyfnerthu Polisi Cynllunio Cymru, gan sicrhau bod pob datblygiad newydd, gan gynnwys cyfleusterau ysgol

ac iechyd newydd, yn darparu ar gyfer cerdded a beicio o'r cychwyn cyntaf.

Trawsnewid Trefi yw prif raglen adfywio Cymru. Mae'n defnyddio'r un egwyddorion â'r rhai a nodwyd uchod i greu canol trefi ffyniannus. Mae pwysigrwydd cael mynediad o ansawdd uchel i gerdded, olwyno a beicio yn elfen allweddol o'r strategaeth trawsnewid ac adlewyrchir hyn yn Canol trefi: datganiad sefyllfa. Mae'r datganiad hwn hefyd yn cadarnhau pwysigrwydd cynlluniau creu lle i fod yn sail i fuddsoddiad a seilwaith yng nghanol trefi, gan gynnwys teithio llesol.

Yn ogystal, rydym wedi sefydlu 'Grŵp Cynghori ar Ddatblygu yn seiliedig ar Leoedd', a fydd yn gwneud argymhellion ar sut i wella cydweithio rhwng timau trafnidiaeth, cynllunio defnydd tir a datblygu economaidd er mwyn cyflawni ein holl amcanion yn well. Bydd cydweithio'n well yn hwyluso cynllun gwell ar gyfer teithio llesol o fewn datblygiadau ac wrth eu cysylltu â'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach.

Mae galluogi ac annog cynifer o blant a phobl ifanc â phosibl i ddefnyddio dulliau teithio llesol i fynd i'r ysgol yn hanfodol i gyflawni ein targedau newid dulliau teithio. Mae prosiectau sy'n cael eu cefnogi drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, y prif Raglen buddsoddi cyfalaf i ysgolion, yn ddull delfrydol o sicrhau bod cynlluniau yn cael eu gwneud i hwyluso dysgwyr i gerdded a beicio i'r ysgol neu goleg.

Rydym wedi cryfhau'r ffyrdd y caiff teithio llesol ei ystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer buddsoddi yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy drwy'r Canllawiau Achos Busnes a'r Ffurflen Crynodeb Gweithredol ar gyfer Achos Busnes, gan sicrhau cadw at Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a bod y Canllaw Dylunio Teithio Llesol yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw fuddsoddiad. Bydd adrannau trafnidiaeth ac addysg yn parhau i wella trefniadau craffu ar gynigion ar gyfer buddsoddi mewn cyfleusterau addysg o safbwynt teithio llesol.

Mae teithio llesol i'r ysgol yn helpu i ffurfio arferion teithio iach gydol oes, yn gwella parodrwydd i ddysgu, yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn lleihau allyriadau niweidiol ger safleoedd sensitif. Rydym yn darparu adnoddau a chymorth ymarferol i ddatblygu cynlluniau teithio llesol ar gyfer ysgolion, er mwyn hyrwyddo'r defnydd o deithio llesol a gwella data ar deithio i ysgolion, gweler adran 3.4.7. hefyd.

Mae anweithgarwch corfforol yn costio hyd at £1 biliwn y flwyddyn i'r GIG ledled y DU bob blwyddyn ac mae'n cynyddu'r risg o gyflyrau cronig, gan gynnwys clefyd y galon, diabetes, ac afiechydon eraill sy'n gysylltiedig â gordewdra. Mae gweithgarwch corfforol hefyd yn cynyddu iechyd meddwl ac iechyd corfforol da, ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru. Mae Teithio Llesol hefyd yn rhan o'r strategaeth genedlaethol

Pwysau Iach: Cymru Iach a'r saith Maes Blaenoriaeth Cenedlaethol a nodir yng Nghynllun Cyflawni 2022-24, gan gynnwys cysylltiadau ag amgylcheddau egnïol a lleoliadau addysg. Byddwn yn parhau i weithio ar draws adrannau i nodi cyfleoedd pellach i gryfhau ystyriaethau teithio llesol mewn meysydd polisi perthnasol, megis safonau ansawdd tai, gwaith sy'n dod i'r amlwg ar bresgripsiynu cymdeithasol, neu fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael.

## 3.1.5. Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Mae gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd ddyletswydd i ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRhau) yn unol â'n harweiniad. Bydd y CTRhau yn cynnwys ein rhaglenni cenedlaethol strategol ac yn eu cymhwyso at flaenoriaethau rhanbarthol a lleol. Bydd y CTRhau yn darparu fframwaith strategol er mwyn i'w hawdurdodau lleol gyflawni, gan gynnwys cynllunio a blaenoriaethu llwybrau teithio llesol strategol ar draws ffiniau.

O fewn TrC, bydd y timau trafnidiaeth rhanbarthol a'r arweinwyr a'r cynghorwyr rhaglen ranbarthol arbenigol yn cefnogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu llwybrau teithio llesol, sy'n cefnogi cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys i gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, gan gael effaith fawr ar newid dulliau teithio.

# 3.2. Cyflawni ar lefel uwch

Gan ymateb i'r her a osodwyd yn sgil adolygu'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, byddwn yn cyflwyno sawl rhaglen strategol i ehangu capasiti a galluogrwydd, fel y gallwn gynyddu'r defnydd o deithio llesol gymaint â phosibl. Mae angen inni wneud teithio llesol yn ddewis cyntaf ar gyfer rhagor o deithiau pob dydd, a TrC, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yw ein partneriaid allweddol mewn perthynas â chyflawni teithio llesol ar lefel uwch ledled Cymru.

## Trafnidiaeth Cymru

Bydd Teithio Llesol yn rhan integredig o weithgarwch Trafnidiaeth Cymru (TrC) wrth iddo ddod yn sefydliad aml-ddull gwirioneddol.

Bydd gwaith TrC o gynnal rhaglenni strategol yn ein helpu i gyflawni ar lefel uwch yn genedlaethol. Bydd yn ein helpu i lywodraethu, cynnal a monitro'r cynllun hwn, yn parhau i reoli a datblygu'r Gronfa Teithio Llesol ac yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u cyflawniad. Bydd TrC yn ceisio adborth gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ac yn gweithredu arno'n barhaus er mwyn gwella effeithlonrwydd y broses o reoli'r Gronfa Teithio Llesol.

Bydd TrC yn cyflwyno proses cam wrth gam newydd gyda'r nod o barhau i wella ansawdd ac effaith y cynlluniau a ariennir gennym, yn unol â'r arweiniad diweddaraf ar arfarnu trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Mae arweiniad newydd WelTAG yn pwysleisio rôl bwysig y broses Mapio'r Rhwydwaith Teithio Llesol o ran llywio cam cynnar y gwaith o ddatblygu cynlluniau teithio llesol ac mae'n cefnogi dull wedi'i symleiddio o'u datblygu'n barhaus.

Rydym yn gweithio gyda TrC i gynyddu'r cymorth a'r arweiniad y gall ei roi ar ddatblygu a chynnal cynlluniau teithio llesol. Bydd hyn yn ei alluogi i arwain y gwaith o ddiweddaru Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, rhannu arferion gorau, cymhwyso'r dechnoleg ddiweddaraf a datblygu atebion arloesol.

## Awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yn rhan ganolog o gynnal yr ymyriadau sy'n gwasanaethu teithiau pob dydd. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn nodi'r cyd-destun ar gyfer teithio llesol yng Nghymru, gan osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio a darparu rhwydweithiau, integreiddio teithio llesol mewn prosiectau trafnidiaeth eraill, yn ogystal â hyrwyddo a monitro teithio llesol. Daw dyletswydd newydd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno i rym erbyn diwedd 2024.

Byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol drwy'r Gronfa Teithio Llesol ac yn darparu cymorth pan fo angen, tra’n disgwyl i awdurdodau lleol nodi a gwneud defnydd o ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys o’u cyllidebau eu hunain. Yn gyfnewid am hyn, byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol fod yn uchelgeisiol a blaenoriaethu teithio llesol wrth sicrhau newid i ddulliau teithio.  Mae angen i awdurdodau lleol arwain dull gweithredu ar draws awdurdod wrth hyrwyddo a chyflawni teithio llesol a buddsoddi ynddo, gan gynnwys drwy'r sectorau addysg, cynllunio, datblygu economaidd, tai ac iechyd y cyhoedd.

Ar hyn o bryd, mae angen i awdurdodau lleol ddiweddaru Mapiau eu Rhwydweithiau Teithio Llesol bob tair blynedd. Wedi trafod â’r Bwrdd Teithio Llesol, mae’r cyfnod ar gyfer adolygu’r cylch newydd wedi’i estyn trwy gyfarwyddyd y Gweinidog tan 1 Rhagfyr 2026.

### Y trydydd sector

Rydym yn cydnabod gwerth y trydydd sector o ran ymgysylltu â chymunedau, gan gynyddu mynediad a newid ymddygiad. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r sector lle bynnag y bo modd i gynnal y cynllun gweithredu hwn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau.

## 3.2.1. Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol

Rydym wedi sefydlu'r Gronfa Teithio Llesol fel y rhaglen benodedig gyntaf ar gyfer buddsoddi mewn teithio llesol yng Nghymru.  Mae wedi tyfu bumgwaith drosodd ers ei gyflwyno ac, yn amodol ar yr Adolygiad nesaf o Wariant, rydym am gynnal y lefelau hyn o fuddsoddiad o leiaf dros gyfnod y cynllun hwn.  Bydd hyn yn ein galluogi i adeiladu ar y momentwm a grëwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Caiff y mwyafrif o ymyriadau teithio llesol eu datblygu a'u rhoi ar waith gan ein partneriaid awdurdod lleol.  Drwy Arweinwyr Teithio Llesol rhanbarthol TrC a'r Grŵp Swyddogion Teithio Llesol, rydym yn cynnig cymorth, yn rhoi diweddariadau ar y syniadau diweddaraf ac yn rhannu arferion gorau.  Drwy fframwaith asesu a chyllid newydd, byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol ymhellach i greu timau cyflawni effeithiol, mewn amgylchedd sy'n blaenoriaethu teithio llesol.  Bydd TrC yn parhau i reoli a mireinio'r rhaglen grant, er mwyn cyd-fynd â'n blaenoriaethau a chodi safon y cynlluniau a gyflwynir.

## 3.2.2. Academi Teithio Llesol

Rydym yn datblygu rhaglen arwain, hyfforddi a datblygu proffesiynol gyda TrC - sef yr Academi Teithio Llesol. Bydd yn ffocws ar gyfer hyfforddiant a datblygiad ym maes teithio llesol

i arweinwyr ac ymarferwyr ledled Cymru. Roedd y cyrsiau hyfforddi a'r deunyddiau cyntaf ar gael yn 2023, a chânt eu hehangu drwy gydol cyfnod y cynllun hwn.

Diben y rhaglen yw rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r adnoddau i arweinwyr teithio llesol a gweithwyr teithio llesol proffesiynol sydd eu hangen arnynt i gynyddu graddfa, cyflymder ac uchelgais cynlluniau cyflawni teithio llesol. Caiff deunyddiau a hyfforddiant eu datblygu i lywio arbenigwyr mewn meysydd cysylltiedig hefyd, y mae eu gwaith yn effeithio ar gyflawni teithio llesol a'r defnydd ohono, megis cynllunio ac addysg, ar sut i gynyddu'r defnydd o deithio llesol i'r eithaf.

## Datblygu arweinyddiaeth

Bydd y rhaglen yn creu adnoddau penodol i lywio a chodi ymwybyddiaeth o deithio llesol ymhlith unigolion allweddol sy'n gwneud penderfyniadau (gan gynnwys Cynghorwyr Lleol ac Aelodau o'r Senedd), yn ogystal ag arweinwyr mewn meysydd allweddol megis iechyd, addysg a busnes.

## Datblygiad proffesiynol

Bydd y rhaglen ar gyfer gweithwyr teithio llesol proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill yn eang er mwyn diwallu anghenion partneriaid allweddol Bydd y cynnwys yn addasu dros amser er mwyn diwallu anghenion datblygol yn ystod cyfnod y cynllun hwn, a sicrhau ei fod yn berthnasol o hyd.

O'r gwaith ymgysylltu y mae TrC wedi'i wneud hyd yma, gwyddom fod awdurdodau lleol am gael hyfforddiant a deunyddiau ar y canlynol:

- Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol;
- cydraddoldeb a chynllun cynhwysol (gan gynnwys y ffordd y caiff asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb eu cymhwyso);
- datblygu Mapiau o Rwydweithiau Teithio Llesol;
- monitro a gwerthuso;
- ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn benodol.

Byddwn hefyd yn ehangu sylfaen wybodaeth a dealltwriaeth y diwydiant mewn meysydd allweddol cysylltiedig megis creu lleoedd, ecoleg a systemau draenio cynaliadwy.

Caiff yr Academi Teithio Llesol ei datblygu a'i darparu mewn cydweithrediad a thrwy rannu profiad â phartneriaid, megis Active Travel England, Comisiwn Dylunio Cymru, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach a sefydliadau proffesiynol.

Bydd yr adnoddau a ddarperir yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant yn y cnawd ac o bell, ochr yn ochr â darparu dogfennau canllaw/pecynnau cymorth a chyfeirio at ddeunyddiau hyfforddiant a datblygu eraill a ddarperir gan gyrff eraill. Drwy Hyb Teithio Llesol TrC (adran 3.2.3), byddwn yn creu fforymau i ymarferwyr rannu arferion gorau a dysgu oddi wrth a chefnogi ei gilydd i gael yr hyder i roi cynnig ar ddulliau gweithredu newydd ac arloesol.

I gyflawni ein nodau, mae angen inni gynyddu capasiti'r sector. Fel rhan o'r Academi Teithio Llesol, byddwn yn creu Llwybr Datblygu Sgiliau er mwyn annog pobl i ymuno â'r diwydiant neu drosglwyddo iddo o ddisgyblaethau cysylltiedig. Byddwn yn helpu i ddenu a datblygu gweithwyr proffesiynol y dyfodol drwy gymorth ar gyfer rhaglenni i raddedigion a phrentisiaethau. Byddwn yn annog ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu modiwlau teithio llesol er mwyn eu cynnig mewn cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch ac fel rhan o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus gan sefydliadau cysylltiedig.

## 3.2.3. Hyb Teithio Llesol TrC

Byddwn yn gwella'r sylfaen capasiti a sgiliau yn TrC er mwyn helpu i gynnal cynlluniau a rhaglenni teithio llesol ledled Cymru, ar ffurf Hyb Teithio Llesol TrC. Bydd hyn yn adeiladu ar rolau presennol TrC ac yn cynnwys:

- tîm dylunio i ddatblygu a dylunio cynlluniau cymhleth a heriol sy'n cael effaith sylweddol;
- prosesau rheoli rhaglenni uwch i gefnogi gwaith partneriaid o gynnal cynlluniau cymhleth a heriol;
- rhoi cyngor a chanllawiau technegol arbenigol i awdurdodau lleol ar gynnal eu rhaglenni teithio llesol;
- diweddaru a datblygu Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol;
- nodi a datblygu atebion technegol a chyflawni arloesol;
- casglu a rhannu arferion gorau.

Bydd TrC yn creu tîm dylunio arbenigol a fydd yn canolbwyntio ar gynnal cynlluniau teithio llesol yng Nghymru. Bydd y tîm dylunio’n gweithio gyda thîm craidd Teithio Llesol i ffurfio Hyb Teithio Llesol TrC a bydd yn cefnogi ac yn cynghori awdurdodau lleol a rhaglen teithio llesol Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru gyda'u cynlluniau mwy cymhleth a heriol neu pan na fydd capasiti lleol ar gael i ddatblygu llwybr a fydd yn cael effaith sylweddol. Bydd yr adnodd hwn ar gael i gefnogi cynlluniau eraill hefyd lle byddai capasiti yn atal cyflawniad.

Caiff y tîm dylunio ei ategu trwy wella galluoedd rheoli rhaglenni o fewn tîm Teithio Llesol craidd TrC er mwyn cyflymu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau. Bydd y tîm hwn yn

defnyddio arbenigwyr mewn meysydd allweddol eraill, megis materion tir ac ymgynghori ac ymgysylltu a allai, o beidio â'u hystyried a'u cyllido'n briodol, arwain yn fynych at arafu cynlluniau. Gall gwaith y tîm ymgorffori prosesau dylunio'r strydlun a'r flaenoriaeth trafnidiaeth gyhoeddus lle y bo'n briodol hefyd a datblygu'r ddealltwriaeth a geir trwy wyddorau ymddygiad i sicrhau bod cynlluniau'n datrys y prif rwystrau.

Bydd yr Hyb yn galluogi'r rheini sy'n datblygu cynlluniau i fanteisio ar gymorth arbenigol ar faterion dylunio penodol, ar y cyd â'r cymorth a'r canllawiau a ddarperir gan y cynghorwyr teithio llesol rhanbarthol. Bydd hefyd yn gallu cael mewnbwn gan bartneriaid arbenigol lle y bo'n briodol, megis Comisiwn Dylunio Cymru a grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig.

Bydd y tîm dylunio'n diweddaru Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn adlewyrchu'r arferion gorau, y ddeddfwriaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf. Byddwn yn sicrhau bod ymarferwyr ac arweinwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau a bydd rhannu'r wybodaeth hon yn rhan o gylch gwaith yr Academi Teithio Llesol.

Bydd gwaith yr Hyb yn ymestyn i nodi, datblygu a chymhwyso mesurau arloesol. Gall hyn fod mewn perthynas â phob agwedd ar y broses ddylunio a chyflawni gan gwmpasu syniadau newydd yng nghynllun cyffredinol y strydlun drwy roi treialon ar waith, megis y cynllun peilot croesfan sebra syml a gynhaliwyd ar ffyrdd ochr yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Fel rhan o'i gylch gwaith, bydd tîm yr Hyb yn hwyluso'r broses o rannu arloesedd ac arferion gorau rhwng pob awdurdod a phartner cyflawni. Bydd yn ceisio gwella swyddogaeth, diogelwch, hygyrchedd, ansawdd a gwerth pob ymyriad.

## 3.2.4. Fframweithiau caffael cenedlaethol

Ar hyn o bryd, nid oes gan rai awdurdodau lleol fynediad at wasanaethau a gweithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â theithio llesol. Mewn ymateb i hyn, byddwn yn rhoi arian i TrC i gryfhau gallu'r sector cyhoeddus i gael mynediad at ystod ehangach o nwyddau a gwasanaethau teithio llesol. Bydd yn adolygu llwybrau presennol a llwybrau posibl ar gyfer y dyfodol er mwyn marchnata am nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â theithio llesol, gan roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut i gael mynediad at fframweithiau presennol a gwneud defnydd mwy effeithiol ohonynt. Bydd TrC hefyd yn gweithio i lywio fframweithiau'r dyfodol sy'n cael eu datblygu gan sefydliadau eraill, er mwyn ehangu mynediad at wasanaethau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â theithio llesol ymhellach. Bydd TrC yn nodi ac yn cau bylchau yn y

ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau teithio llesol penodol, megis rhoi cynlluniau llogi beiciau ar waith i wella hygyrchedd i bartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, tra'n sicrhau bod y fframweithiau perthnasol yn cyflawni amcanion ehangach y llywodraeth hefyd.

## 3.2.5. Dealltwriaeth drwy fonitro a gwerthuso

Mae monitro a gwerthuso yn effeithiol ar lefel rhaglen a chynllun yn hanfodol i ddeall pa ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf. Bydd yr wybodaeth hon yn ein galluogi i wneud penderfyniadau gwell, datblygu cynlluniau gwell, darparu gwell gwerth am arian a chreu mwy o newid i ddulliau teithio.

Mae TrC yn datblygu fframwaith monitro cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer teithio llesol sy'n cefnogi fframwaith monitro Llwybr Newydd, a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth inni o deithio llesol ledled Cymru. Caiff y fframwaith ei gwblhau yn 2023-24 a bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Teithio Llesol i olrhain cynnydd. Bydd y fframwaith monitro yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion megis:

- Canran y bobl sy'n cerdded neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel dull trafnidiaeth;
- Canran yr ysgolion sydd â chynlluniau teithio llesol;
- y cilometrau o seilwaith teithio llesol / hyd cyffredinol y rhwydwaith teithio llesol sy'n cyrraedd y safon neu'n rhagori arni.

Byddwn yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y fframwaith ac yn gweithio gyda'r Bwrdd Teithio Llesol i ddatblygu neu ddiwygio dangosyddion er mwyn cefnogi amcanion yn well yn ôl y gofyn.

Bydd TrC yn gweithio gyda phartneriaid i lenwi bylchau mewn data a chyhoeddi data yn erbyn y dangosyddion yn flynyddol, gan roi trosolwg o'n cynnydd o ran cyflawni seilwaith a'r defnydd o deithio llesol ar gyfer siwrneiau pob dydd.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar raglenni casglu data presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, megis Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Dwylo i Fyny Teithio i'r Ysgol Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr a'r Arolwg Teithio Cenedlaethol pan gaiff y canlyniadau cyntaf eu cyhoeddi. Byddwn yn defnyddio'r rhain a data eraill i ddeall tueddiadau a darparu gwybodaeth i helpu i ddileu rhwystrau a dylanwadu ar newid mewn ymddygiad. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gasglu gwybodaeth ystyrlon am grwpiau cymunedol gwahanol a'r rhai â nodweddion gwarchodedig, er mwyn ein galluogi i dargedu a blaenoriaethu ein buddsoddiad.

## Cyflawni'r cynllun

Byddwn yn gweithio gyda TrC i ddatblygu canllawiau ar gasglu data ar lefel cynlluniau, yn unol â'r Gronfa Teithio Llesol a gofynion Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, ochr yn ochr â chefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau monitro a gwerthuso teithio llesol.  Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i werthuso manteision creu fframwaith neu wasanaeth cenedlaethol ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau monitro, er mwyn deall a allai hyn gynnig dull gweithredu mwy cyson, effeithlon ac effeithiol.

Bydd gofyn bod gan bob un o’r rhaglenni rydym yn eu hariannu drefn werthuso wedi’i hymgorffori ynddynt o’r dechrau.

## 3.3. Dangos yr hyn y gall teithio llesol ei gyflawni

Byddwn yn dangos yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn ymrwymo'n llawn i deithio llesol drwy glustnodi tref lle byddwn yn gwneud ac yn hyrwyddo gwelliannau cydgysylltiedig ar sail lle i deithio llesol ein cynllun tref teithio llesol. Bydd TrC yn arwain rhaglen o gynlluniau braenaru hefyd i ddatblygu cynlluniau a dulliau gweithredu arloesol er mwyn gwerthuso a dangos eu potensial i sicrhau canlyniadau mwy effeithiol.

### 3.3.1. Gweithio mewn ffordd holistig ar sail lle

Mae’r dystiolaeth yn dangos bod cyfuno ymyriadau yn fwy effeithiol o ran cael pobl i newid eu dulliau teithio na chynnal ymyriadau ar wahân. Rydym am brofi hyn tra’n cydnabod na fydd yn debygol hyd y gallwn ragweld y bydd gennym yr adnoddau i allu cynnal yr holl ymyriadau y carwn eu cynnal. Felly yn 2024-25 byddwn yn dewis lle ac yn dechrau datblygu rhaglen o seilwaith ac ymyriadau ategol ar sail lle, gan ddatblygu’r gwaith sydd wedi’i wneud gydag ac o fewn ysgolion. Bydd y cam cynllunio hwn yn nodi ymyriadau addas yn ogystal â sefydliadau partner lleol i gefnogi'r rhaglen. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi lleoliad addas ar gyfer y dref ‘arddangos’ hon. Drwy gydweithio, byddwn yn cynnal rhaglen amlflwyddyn gydlynol o seilwaith uchelgeisiol ac ymyriadau ategol i geisio datrys yr holl rwystrau posibl i deithio llesol, gan ddatblygu’r ddealltwriaeth ar sail tystiolaeth a gafwyd trwy’r gwyddorau ymddygiad. Mae angen inni ddeall a dangos sut y gall mesurau o'r fath gyd-fynd â'i gilydd, er mwyn creu'r manteision mwyaf a chael effaith ar newid dulliau teithio i'r grwpiau niferus ac amrywiol o fewn y gymuned. Ategir hyn gan waith monitro a gwerthuso trwyadl i lywio rhaglenni ledled Cymru yn y dyfodol. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynnwys ymchwilwyr academaidd yn y rhaglen fonitro a gwerthuso er mwyn cynnig mwy o ddealltwriaeth a manylder i'r gwerthusiad.

Bydd Hyb TrC yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen a bydd yn ymgysylltu â phartneriaid eraill er mwyn helpu i gyflawni sbectrwm llawn o fesurau. Byddwn yn defnyddio arbenigedd grwpiau teithio llesol rhanbarthol a chenedlaethol i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a chynnal y prosiect, er mwyn casglu'r syniadau a'r galluoedd gorau.

Oherwydd ehangder y rhaglen hon, bydd y gwaith cyflawni yn para drwy gyfnod y cynllun hwn ac wedi hynny o bosibl. Bydd y gwaith o fonitro a gwerthuso'r prosiect arddangos hwn yn mynd rhagddo yn ystod y cam cyflawni ac am sawl blwyddyn wedyn er mwyn asesu a oes cynnydd yn y defnydd o deithio llesol ac i ba raddau, ac am ba hyd y mae'n parhau i gynyddu.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ariannu'r rhaglen arddangos holistig hon fydd yn seiliedig ar le yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y prosiect hwn yn ein helpu i ddeall manteision cyfuniadau o ymyriadau, y rhyngweithiad rhyngddynt a'u gwerth o ran creu newid dulliau teithio, yn ogystal â'r manteision ehangach i grwpiau gwahanol o fewn ein cymunedau.

### 3.3.2. Cynlluniau braenaru

Rydym yn cydnabod yr angen i gefnogi a chyflymu'r broses gyflawni, a datblygu dulliau gwahanol o ddylunio cynlluniau. Rydym yn awyddus i ystyried ffyrdd newydd o gynnal prosiectau er mwyn nodi modelau cyflawni effeithiol a galluogi cynlluniau mwy arloesol, o ansawdd uchel ac sy'n cael mwy o effaith.

Rydym wedi gofyn i TrC ddatblygu a rheoli rhaglen o gynlluniau braenaru, ar y cyd ag awdurdodau lleol, Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru a'r Asiantiaid Cefnffyrdd. Bydd y rhaglen hon yn datblygu prosiectau a modelau cyflawni cydweithredol amrywiol, a fydd yn defnyddio dulliau gweithredu gwahanol er mwyn annog mwy o newid i deithio llesol. Gall y dulliau hyn gynnwys llwybrau hwy rhwng aneddiadau neu i wasanaethau allweddol, cyfuniad newydd o ymyriadau a dulliau cyflawni arloesol. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried ystod eang o gynigion a syniadau, gan ein bod am ystyried dulliau gweithredu ac atebion newydd ar gyfer materion lleol y gellir eu haddasu a'u rhannu ledled Cymru wedyn.

Gwnaethom ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol, ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau â diddordeb i ddewis grŵp cychwynnol o gynlluniau i ddechrau eu datblygu yn 2024. Byddwn yn ystyried datblygu cynlluniau braenaru eraill yn y dyfodol er mwyn parhau i greu rhagor o atebion effeithiol sy'n cael effaith sylweddol.

# 3.4. Gwneud teithio llesol yn ddewis cyntaf ar gyfer rhagor o deithiau

Os ydym am gyflawni ein targedau ar gyfer newid dulliau teithio, bydd angen darparu rhaglen eang o weithgareddau, gan gynnwys seilwaith ffisegol, ymgyrchoedd hyrwyddo, hyfforddiant a phrosesau cynllunio teithiau. Dim ond drwy raglen eang o ymyriadau y gallwn newid ymddygiadau a gwneud teithio llesol y dewis cyntaf a'r dewis hawdd ar gyfer teithiau byrrach ac yn rhan o deithiau cynaliadwy hwy.

Gyda'n partneriaid, rydym wedi cyflawni llawer dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond mae angen inni wneud llawer mwy. Mae paratoi'r cynllun hwn yn gyfle i bob un ohonom gyflymu ein hymdrechion cydgysylltiedig a gwireddu'r manteision eang y gall teithio llesol eu cynnig os mai dyna fydd y dewis cyntaf ar gyfer llawer mwy o deithiau.

Er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar ymyriadau'n cael eu harwain gan y sector cyhoeddus, credwn fod ein partneriaid yn y trydydd sector yn allweddol inni gynnal y rhaglen gynhwysfawr sy'n ofynnol.

Mae gan y trydydd sector rôl allweddol i'w chwarae o ran datblygu a chynnal rhaglenni teithio llesol ledled Cymru, yn enwedig ar lefel leol. Gan weithio gyda chymunedau a grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr, gall sefydliadau'r trydydd sector ddefnyddio eu profiad a'u gwaith ymgysylltu i nodi a chyflawni atebion sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion lleol, yn ogystal â rhoi dealltwriaeth, cyngor a her i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a TrC.

Edrychwn ymlaen at barhau, cryfhau ac ehangu ein cydweithrediad â'r trydydd sector a'i gefnogi i ddarparu mesurau teithio llesol sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol.

## 3.4.1. Hyrwyddo teithio llesol

Mae Gweithredu ar Newid Hinsawdd – Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2023-2026), a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2023, yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn cael pobl i gyfrannu at y penderfyniadau ynghylch sut i daclo newid hinsawdd, ac i gymryd rhan yn y gweithredu sydd ei angen i daclo newid hinsawdd. Mae'r strategaeth yn ymdrin â phedair 'dewis gwyrdd'. Trafnidiaeth werdd yw un o'r dewisiadau hynny, sy'n cynnwys teithio llesol. Mae'r strategaeth yn tanlinellu manteision teithio llesol o ran lleihau allyriadau carbon, lleihau llygredd aer a sŵn, arbed arian i bobl a gwella iechyd a lles y wlad. Atgyfnerthir y negeseuon hyn trwy'r ymgyrch genedlaethol Gweithredu ar Newid Hinsawdd a'r Hyb Digidol.

Wrth ddatblygu ymhellach ein gwybodaeth a'n hymgyrchoedd ymgysylltu ar gyfer trafnidiaeth a theithio llesol, byddwn yn defnyddio fframwaith cyfathrebu cenedlaethol a fframwaith cyfathrebu rhanbarthol strwythuredig y strategaeth i atgyfnerthu'r negeseuon craidd a gwneud y gorau o'u hadnoddau.  Byddwn yn defnyddio'r gwerthusiadau o ymgyrchoedd eraill i lywio ymgyrchoedd teithio llesol yn y dyfodol.  I gefnogi ein targedau ar gyfer newid i ddulliau teithio cynaliadwy, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n rhoi gwerth mawr i'n harian.

Byddwn yn ategu'r rhaglenni a ddisgrifir yn rhannau eraill y cynllun hwn, fel teithio llesol i'r ysgol neu'r gwaith, ag arfau a gweithgareddau hyrwyddo cenedlaethol ehangach, ac yn ymchwilio o hyd i gyfleoedd eraill i wneud teithio llesol y dewis cyntaf ar gyfer teithiau pob dydd.

## Ymgyrchoedd

Yn 2023, gwnaethon ni ddechrau cyflwyno rhaglen newid ymddygiad eang ei chwmpas ar sawl agwedd ar yr argyfwng newid hinsawdd, 'Gweithredu ar Newid Hinsawdd', a lansio'r Hyb Digidol, Gweithredu ar Newid Hinsawdd. Mae gan deithio llesol rôl bwysig i'w chwarae o ran lleihau allyriadau trafnidiaeth ac mae'n elfen gref o'r negeseuon.

O fewn trafnidiaeth, byddwn yn rhannu negeseuon ategol i hyrwyddo teithio cynaliadwy fel opsiwn amgen yn lle defnyddio'r car, gan gynnwys manteision ehangach teithio llesol.  Byddan nhw'n cynnwys negeseuon sydd wedi'u dylunio'n benodol i gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r rhai â nodweddion gwarchodedig.  Gwnaeth ein hymgyrch terfyn cyflymder "Byddwch yn barod am y 20mya" ymgorffori manteision cerdded a beicio ac rydym wedi gweld cynnydd mewn teithio llesol yn ein hardaloedd peilot.

Byddwn yn adeiladu ar yr ymgyrchoedd diweddar ar newidiadau i reolau'r ffordd fawr, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y newidiadau a oedd o fudd i ddiogelwch y rhai a oedd yn teithio ar droed, ar olwyn, ar gefn ceffyl neu ar feic.  Byddwn hefyd yn cynhyrchu deunyddiau pellach ar roi lle i feicwyr.  Ategir hyn gan ymgyrch SNAP a gaiff ei rhedeg gan GanBwyll, sy'n galluogi beicwyr a defnyddwyr eraill y ffordd i gyflwyno deunydd fideo o gerbydau yn pasio yn agos a throseddau gyrru eraill drwy un porth.

Caiff ein gwaith cyfathrebu ehangach ar drafnidiaeth ei gydgysylltu â'r gwaith y gwnaeth TrC ei ddatblygu a'i gyflwyno.  Mae'n datblygu ei alluoedd o ran deall ymddygiad a bydd yn defnyddio'r rhain i annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio llesol yn ei ymgyrchoedd trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae partneriaid yn y trydydd sector hefyd yn ymgyrchu o blaid defnyddio dulliau teithio llesol a chynaliadwy.  Byddwn yn gweithio gyda nhw ar ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol er mwyn cyrraedd eu grwpiau defnyddwyr a'u cymunedau lleol

gyda'r nod o ddeall eu hanghenion a hyrwyddo teithio llesol mewn ffordd gynhwysol.

### Pecyn cymorth hyrwyddo

Mae TrC wedi datblygu pecyn cymorth hyrwyddo i gefnogi awdurdodau lleol i ymgysylltu â'u cymunedau ynghylch datblygiadau a chyfleoedd teithio llesol.  Defnyddir y pecyn cymorth hwn, a gyhoeddwyd yng Ngwanwyn 2024, i roi gwybodaeth am ddefnyddio teithio llesol ar gyfer teithiau pob dydd pwrpasol, gan helpu i gynyddu effaith buddsoddiad mewn seilwaith teithio llesol.

Bydd y pecyn cymorth yn cefnogi'r gwaith o baratoi deunyddiau hyrwyddo o ansawdd uchel ar gyfer cynlluniau neu ddatblygiadau penodol, yn ogystal â chynulleidfaoedd. Mae’n cynnwys adnoddau sy'n cwmpasu gwybodaeth allweddol er mwyn hyrwyddo teithio llesol yn gyffredinol, megis ystadegau allweddol, negeseuon allweddol am fanteision teithio llesol, astudiaethau achos, delweddau cynhwysol ac adnoddau eraill, megis templedi a dyluniadau. Gellir defnyddio'r adnoddau hyn ar gyfer ymgyrchoedd lleol cyffredinol neu eu cyflwyno ochr yn ochr â deunyddiau am gynlluniau penodol er mwyn atgyfnerthu'r cyfleoedd i newid. Caiff y pecyn ei adolygu a’i ddiweddaru’n rheolaidd gydol oes y cynllun.

### Arfau digidol ac ymgysylltu

MapDataCymru yw system gwybodaeth ddaearyddol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys ap teithio llesol pwrpasol. Mae rhyngwyneb defnyddiwr cyhoeddus wedi cael ei ddatblygu i alluogi Mapiau o Rwydweithiau Teithio Llesol i gael eu rhannu â'r cyhoedd ehangach, ynghyd â setiau data eraill a ddiffinnir gan ddefnyddwyr, er enghraifft addysg neu gyfleusterau iechyd.  Mae hefyd yn cynnwys adnodd arolwg i gysylltu, ymgysylltu ac ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol.  Bydd yr adnodd arolwg yn parhau i gael ei fireinio er mwyn gwella'r profiad i ddefnyddwyr.  Bydd yn ystyried ffyrdd o ddarparu'r data mewn cymwysiadau eraill ac at ddibenion eraill yn y dyfodol, mewn cydweithrediad â'r awdurdodau lleol fel perchnogion y data.

## 3.4.2. Creu rhwydweithiau o ansawdd uchel

Drwy wella ein seilwaith, byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd i bobl gerdded, olwyno a beicio, nid yn unig o fewn aneddiadau, ond hefyd drwy goridorau teithio llesol prif ganolfan a lloerennau a fydd yn cysylltu canolfannau lleol â phentrefi cyfagos a datblygiadau anghysbell.  Byddwn yn gweithio hefyd ag awdurdodau lleol ac asiantaethau cefnffyrdd i sicrhau bod gwelliannau i’r amodau ar gyfer teithio llesol yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau priffyrdd, yn unol â’r dyletswyddau yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Byddwn yn creu amgylchedd cyflawni effeithiol sy'n

blaenoriaethu teithio llesol ac yn sicrhau rhwydwaith o ansawdd uchel.  Wrth ddatblygu seilwaith newydd, mae'n bwysig ei fod yn diwallu anghenion lleol, yn ogystal â gofynion Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.  Yn gyffredinol, mae'r canllawiau yn gosod safonau derbyniol gofynnol a dylai dylunwyr ystyried y diben a’r amgylchedd wrth ystyried sut y byddant yn cymhwyso’r canllawiau, gan geisio bodloni safonau dymunol yn hytrach na safonau gofynnol.  Mae cyflawni teithio llesol yn cynnig cyfle i gyrraedd y tu hwnt i'r safonau gofynnol ac ymgorffori elfennau sy'n cynnig manteision llawer ehangach i'r gymuned, megis rhagor o gyfleoedd chwarae, amwynderau a bioamrywiaeth.

## Cynnal ein hasedau

Mae gennym rwydwaith cynyddol o lwybrau teithio llesol, ac mae'n hollbwysig ein bod yn cynnal ac yn gwella'r rhwydwaith presennol ochr yn ochr ag adeiladu seilwaith newydd. Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol o fewn ei grant bloc yw gwaith cynnal a chadw cyffredinol.  Er mwyn defnyddio'r asedau helaeth sydd gennym eisoes yn effeithiol, gall awdurdodau lleol hefyd wneud cais i’r Gronfa Teithio Llesol er mwyn gwneud gwelliannau cyfalaf i asedau presennol.

## Blaenoriaethu buddsoddi

Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi blaenoriaeth i’r ymyriadau a fydd yn cael yr effaith fwyaf.  I gefnogi hyn, mae TrC wedi datblygu adnodd seiliedig ar fapiau sy’n helpu awdurdodau lleol i roi blaenoriaeth i Rwydweithiau Teithio Llesol.  Mae’r adnodd yn nodi hefyd llwybrau teithio llesol fydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar newid dulliau teithio.  Bydd awdurdodau lleol yn dilysu allbynnau'r broses flaenoriaethu trwy ddefnyddio adnoddau data lleol eraill. Bydd y pecyn yn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau i'w rhoi ar waith o fewn eu blaenraglenni ac fel rhan o’r CTRHau.

## Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

Mae Llwybr Newydd yn amlinellu'r dyhead i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac i gefnogi'r economi ymwelwyr.  Byddwn yn cefnogi gwelliannau i'r Rhwydwaith er mwyn cael llwybrau o ansawdd uchel, sy'n hygyrch i bawb ac yn sicrhau y bydd cymunedau Cymru yn cael budd o gysylltedd gwell a mwy diogel.  Bydd hyn yn adeiladu ar waith Sustrans o asesu a chategoreiddio'r Rhwydwaith mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a datblygu.

## Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Fel rhan o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am welliannau a chynlluniau teithio llesol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, ac am ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr, er enghraifft, yn ystod gwaith ffordd.

Mae llwybrau teithio llesol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn darparu cysylltiadau cerdded a beicio hanfodol o fewn cymunedau ac iddynt/ohonynt.  Ar ôl cyflwyno'r Mapiau o Rwydweithiau Teithio Llesol, dadansoddwyd y rhain er mwyn nodi pob croesffordd a llwybr ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, er mwyn llunio rhestr o leoliadau posibl lle gall ymyriadau gael eu hystyried yn ychwanegol at y rhai hynny sydd eisoes ar ein rhaglen.  Byddwn yn gweithio gyda TrC ac awdurdodau lleol i nodi, blaenoriaethu a chynnal rhaglen o ymyriadau ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a llwybrau cyfagos sy'n gwella cysylltedd a diogelwch, yn lleihau achosion o wahanu ardaloedd o bobtu'r ffordd, ac yn eu hintegreiddio â Mapiau o Rwydweithiau.

## 3.4.3. Gwella hygyrchedd a dileu rhwystrau

Mae angen inni ei gwneud yn haws i gerdded, olwyno a beicio, er mwyn cynyddu'r newid mewn dulliau teithio gymaint â phosibl.  Yn ogystal â darparu a gwella llwybrau, gallwn wneud newidiadau llai i lwybrau sy'n gwneud y rhwydwaith yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig.

Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella'r ffordd y mae cynlluniau yn adlewyrchu anghenion pob defnyddiwr. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu proses ar gyfer adolygu dyluniad cynlluniau teithio llesol sy'n sicrhau bod dyluniadau'n darparu ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Bydd yr adolygiadau o ddyluniadau hefyd yn cynnwys cyfleoedd i rannu arferion da a chymhwyso mewnbwn arbenigol ychwanegol yn ôl y gofyn. Byddwn yn cynnal adolygiadau arbenigol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cynlluniau dethol.

Mae dileu rhwystrau ffisegol sy'n atal mynediad i bobl sy'n defnyddio beiciau neu feiciau tair olwyn wedi'u haddasu, cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd, cadeiriau gwthio neu'r rheini sydd â nam ar y golwg, yn un newid o'r fath. Rydym yn ymrwymedig i ddileu rhwystrau, lle y bo modd, a chefnogi awdurdodau lleol i wneud yr un peth.

Mae rhwystrau eraill i deithio llesol yn ymwneud yn aml â chyfleusterau ar ddechrau a diwedd taith, megis darparu lle diogel i barcio beiciau.  Byddwn yn darparu cyfleusterau storio beiciau o ansawdd uchel mewn gorsafoedd bysiau a threnau, gan gynnwys darparu canolfannau beiciau diogel â chyfleusterau atodol megis stondinau atgyweirio beiciau, mannau gwefru e-feiciau a chynigion manwerthu lle y bo'n briodol.  Ar hyn o bryd, mae Uned Cyflenwi Burns yn Ne-ddwyrain Cymru wedi cefnogi cyfleusterau storio beiciau diogel yng Nghaerdydd a Chasnewydd.  Bydd profiad pobl o'r cynlluniau hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r cyfleusterau hyn yn ehangach yn y dyfodol. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda TrC ac awdurdodau lleol i gyflwyno

prosiect peilot i roi ‘hangars’ beiciau ar y stryd ar waith yn 2024, sy'n darparu unedau diogel i storio beiciau i breswylwyr lleol, a byddwn yn ceisio cyflymu'r broses gyflawni. Os gwelir bod y cynllun peilot yn llwyddiannus, byddwn yn ei gyflwyno i ardaloedd eraill.

## 3.4.4. Cefnogi mynediad at feiciau

Rydym wedi cefnogi ystod o raglenni sy’n ystyried opsiynau i gynnig mwy o fynediad at feiciau i bawb. Gydol cyfnod y cynllun hwn, byddwn yn parhau i ystyried ffyrdd i’w gwneud hi’n haws i bobl gael at feiciau ac e-feiciau. Mae gan e-feiciau botensial mawr i newid dulliau teithio, gan eu bod yn gwneud siwrneiau teithio llesol hwy yn fwy deniadol, a hyd yn oed yn fwy pan fo'r dirwedd yn heriol.

### Benthyca e-feiciau ac e-feiciau cargo

Rydym wedi cefnogi nifer o brosiectau sy'n galluogi defnyddwyr i roi cynnig ar e-feiciau ac yna eu cefnogi i'w prynu, gan gynnwys “e-symud / e-move”, a gyflwynir gan Sustrans, a ‘see cycling differently’, a gyflwynir gan Pedal Power. Sefydlodd e-symud hybiau e-feiciau yn cynnig e-feiciau ac e-feiciau cargo i'w llogi a'u benthyca am gyfnod hir. Byddwn yn ystyried effeithiau’r mentrau hyn ac yn cefnogi'r gwaith o drosglwyddo'r fflydoedd i fodel gweithredu cynaliadwy tymor hir yn 2024.

### Benthyciadau i brynu e-feiciau

Dros gyfnod y cynllun, byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer creu cynllun benthyciadau i brynu e-feiciau, os bydd arian ar gael, i leihau'r rhwystrau ariannol i fod yn berchen ar e-feic ac e-feic cargo trwy gynnig benthyciadau di-log i bobl sydd am brynu e-feic neu e-feic cargo.

### Mynediad at feiciau rhatach

Byddwn yn adeiladu ar ein cymorth presennol i sefydliadau nid-er-elw sy'n darparu mynediad at feiciau ail law rhatach a chynlluniau trwsio a chynnal a chadw beiciau, gyda'r nod o sefydlu cynllun grant swm bach newydd at ddibenion o'r fath a dibenion cysylltiedig.

### Mynediad at feicio cynhwysol

Byddwn yn adeiladu ar ein cymorth i sefydliadau nid-er-elw sy'n darparu hyfforddiant a mynediad at feiciau sy'n bodloni ystod eang o ofynion mynediad. Enghraifft o hyn yw cyllid Llywodraeth Cymru i brosiect ‘see cycling differently’ Pedal Power. Mae’r prosiect hwn yn creu cyfeiriadur o wasanaethau i ddarparu gwybodaeth am sut a ble i gael gafael ar wasanaethau beicio cynhwysol ac wedi'u haddasu ledled Cymru. Cafodd fforwm hefyd ei sefydlu i'r sefydliadau hynny gysylltu â'i gilydd ac â gwasanaethau, grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol eraill.

### Opsiynau ar gyfer llogi beiciau

Mae cynlluniau llogi beiciau wedi galluogi pobl i ymgymryd â nifer sylweddol o deithiau ar feiciau, gan alluogi pobl i wneud siwrneiau llesol fel un rhan o siwrnai gynaliadwy neu yn lle siwrnai mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Oherwydd fandaliaeth, cafodd y cynllun mwyaf yng Nghymru ei gau ddiwedd 2023.

Byddwn yn dysgu o’r profiad hwn ac yn ystyried amrywiaeth o fodelau ar gyfer sefydlu cynllun llogi beiciau ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol ac yn cefnogi'r gwaith o'u cynnal ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys y potensial i sefydlu mannau llogi beiciau mewn gorsafoedd trenau a datblygu llyfrgelloedd beiciau a chynlluniau llogi beiciau cymunedol. Wrth ddatblygu cynlluniau yn y dyfodol, byddwn yn ceisio cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynnwys beiciau safonol, e-feiciau a beiciau wedi'u haddasu.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y DU ar fframwaith rheoleiddiol ar gyfer dulliau micro-symudedd, megis e-sgwteri, i ategu dulliau teithio llesol.

## 3.4.5. Galluogi teithiau aml-ddull

Er mwyn cynyddu’r newid mewn dulliau teithio gymaint â phosibl, bydd angen inni ddarparu opsiynau amgen deniadol i deithiau mewn car. Nid oes modd i bob taith fod yn daith teithio llesol yn llwyr, felly mae potensial y bydd dileu'r rhwystrau ar gyfer cysylltiadau teithio llesol i orsafoedd bysiau a threnau yn sicrhau newid mewn dulliau teithio.

### Gwella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus drwy deithio llesol

Byddwn yn parhau i wella hygyrchedd gwasanaethau bysiau a threnau drwy deithio llesol drwy weithio gydag awdurdodau lleol, TrC a darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus eraill. Byddwn yn gwella llwybrau teithio llesol i greu system drafnidiaeth ddi-dor, ddeniadol ac effeithlon, gan adeiladu ar y cynlluniau rhwydwaith gorsafoedd a'r cynlluniau teithio gorsafoedd presennol a'u hestyn. Caiff y rhaglenni hyn eu hategu gan raglenni i gynyddu'r cyfleusterau teithio llesol o ansawdd a ddarperir mewn cyfnewidfeydd bysiau a threnau.

### Cludo beiciau ar drafnidiaeth gyhoeddus

Byddwn yn parhau i weithio i wella capasiti ar gyfer cludo beiciau, cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a phramiau ar wasanaethau bysiau a threnau. Byddwn yn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer beiciau ar yr holl drenau sy'n rhan o fflyd TrC gydag uchelgais hirdymor o ddarparu dau le fesul cerbyd, ar gyfartaledd. Byddwn hefyd yn ystyried cyfleoedd i wella cyfleusterau storio beiciau ar wasanaethau TrawsCymru a gwasanaethau bysiau yn y dyfodol a ddarperir

gan TrC a byddwn yn parhau i wella profiadau cwsmeriaid sy'n cadw lle i feiciau ar drenau.

### Cynllunio siwrneiau a thocynnu integredig

Bydd teithio llesol yn rhan flaenllaw o'r llwyfan tocynnu integredig sy'n cael ei ddatblygu gan TrC, a fydd yn cefnogi'r gallu i gynllunio siwrnai o'r dechrau i'r diwedd.  Bydd y platfform yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd teithio llesol fel rhan o symudiad i hwyluso teithiau cynaliadwy o'r dechrau i'w diwedd.  Mae TrC yn ystyried elfennau eraill i'r platfform fel trefnu cymorth a chadw lle ar gyfer beiciau a dulliau olwyno ar gyfer eu taith, ar y cyd ag archebu eu tocynnau trên neu fws, gan ei gwneud yn haws i gynllunio siwrnai gynaliadwy o'r dechrau i'r diwedd.

## 3.4.6. Darparu hyfforddiant teithio llesol

Mae angen inni roi'r wybodaeth a'r sgiliau i'n cymunedau i fanteisio ar ein rhwydweithiau sy'n ehangu a gwneud dewisiadau teithio cynaliadwy.  Byddwn yn parhau i gefnogi hyfforddiant teithio llesol ac yn ehangu cyrhaeddiad mentrau presennol y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gwmpasu drwy gydol cyfnod y cynllun hwn, gan dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol lle y bo'n gymwys.

### Hyfforddiant teithio llesol i blant

Byddwn yn ehangu cyrhaeddiad ein rhaglenni presennol er mwyn gwella diogelwch ein disgyblion drwy ddarparu hyfforddiant ar gerdded a beicio mewn ysgolion.  Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i gerddwyr ifanc a gwella cysondeb yr hyfforddiant beicio a ddarperir.  Byddwn yn ehangu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant beicio cynhwysol ac yn annog camau i ehangu hyfforddiant y tu allan i leoliadau ysgol.

### Hyfforddiant beicio i oedolion

Collodd llawer o bobl y cyfle i ddysgu sut i reidio beic yn gynharach mewn bywyd, felly byddwn yn cefnogi camau i ddarparu hyfforddiant beicio i oedolion ar raddfa eang.  Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant beicio hygyrch a bydd yn dilyn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio.

## 3.4.7. Cynyddu teithio llesol i'r ysgol

Bydd y daith i'r ysgol yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r camau rydym yn eu cymryd i gynyddu'r defnydd o deithio llesol oherwydd y manteision niferus o ran iechyd a llesiant, addysg, yr amgylchedd a diogelwch ar y ffyrdd.  Byddwn yn gweithio gyda partneriaid ar weithredu'r cynllun cyflawni teithio llesol i'r ysgol cenedlaethol ac adeiladu ar dystiolaeth o Arolwg 'Dwylo i Fyny Teithio i'r Ysgol', Arolwg y Rhwydwaith

Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion o Iechyd a Lles Myfyrwyr ac Arolwg Cenedlaethol Cymru er mwyn helpu i benderfynu a thargedu camau gweithredu.

Yn ogystal â'r Gronfa Teithio Llesol, rydym yn ariannu gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio a chyfleusterau sy'n cysylltu'n benodol ag ysgolion drwy'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau bob blwyddyn. Bydd hyn yn creu amgylcheddau mwy diogel a deniadol ar gyfer teithio llesol yng nghyffiniau ysgolion, yn ogystal â lleihau llygredd aer. Byddwn hefyd yn ystyried defnyddio'r un prosesau a'r dulliau gweithredu wrth ymdrin â'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau â'r rhai a roddwyd ar waith i reoli'r Gronfa Teithio Llesol, er cysondeb.

Mae’r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau bellach yn canolbwyntio’n benodol ar gyflwyno Strydoedd Ysgolion, sy’n golygu cau ffyrdd o amgylch ysgolion ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol i wella diogelwch ar y ffyrdd, ansawdd yr aer ac i annog teithio llesol.  Yng ngwanwyn 2024, byddwn yn rhoi Canllawiau ar Strydoedd Ysgolion i awdurdodau lleol.

Byddwn yn gweithio gyda Sustrans, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid addysg i bwyso am ddatblygu cynlluniau teithio llesol yn y rhan fwyaf o ysgolion. Byddwn yn parhau i gefnogi'r cynlluniau gyda rhaglen o fentrau ategol, megis y rhaglen Hyrwyddo Teithio Llesol mewn ysgolion, hyfforddiant cerdded a beicio, lleoedd i barcio beiciau a sgwteri a fflydoedd o feiciau i ysgolion.  Byddwn yn parhau i sicrhau bod Teithio Llesol yn parhau yn ystyriaeth allweddol fel rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a hefyd yn gwneud cynllun teithio llesol ar gyfer ysgolion yn amod i gael buddsoddiad perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein rhaglen Teithiau Iach wedi parhau i weithio gyda llawer o gymunedau ysgol ledled Cymru er mwyn annog plant a theuluoedd i gerdded, sgwtio neu feicio i'r ysgol ar gyfer eu teithiau cyfan neu ran ohonynt.  Mae’r rhaglen Cerdded i’r Ysgol, a ddarperir gan Strydoedd Byw, yn ategu hyn gan roi mwy o ddewis i ysgolion. Bwriedir i raglenni o'r fath feithrin ymddygiadau teithio cynaliadwy mewn plant sy'n parhau nes y byddant yn oedolion ac annog rhieni a pherthnasau i fabwysiadu dulliau teithio cynaliadwy mewn rhannau eraill o'u bywydau.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r fanyleb a chaffael rhaglen olynol, er mwyn parhau i hyrwyddo teithio llesol yng nghymunedau ysgolion, pan ddaw'r rhaglen Teithiau Iach gyfredol i ben yn 2024.

## 3.4.8. Cefnogi mentrau teithio mewn gweithleoedd

Byddwn yn parhau i geisio annog newid i ddulliau teithio llesol ar gyfer teithiau cymudo a busnes cyfan, neu ran ohonynt. Mae'r cynllun beicio i'r gwaith wedi helpu llawer o bobl i brynu beiciau ar gyfer cymudo ond gellir gwneud mwy.

Rydym yn helpu i gyflwyno'r Siarter Teithio Iach ymhellach i gyflogwyr yng Nghymru er mwyn helpu cyflogwyr i roi cymhelliant i'w staff wneud teithiau mwy llesol i'r gwaith ac wrth gynnal busnes. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd y gallwn gefnogi a chymell cyflogwyr er mwyn helpu i ddarparu seilwaith gwell yn y gweithle megis lleoedd parcio beiciau, cyfleusterau storio cyfarpar, a chawodydd a chyfleusterau newid a sychu.

## 3.4.9. Gwneud ffyrdd yn fwy addas i deithio llesol

Yn ogystal ag ymyriadau teithio llesol penodol, mae gennym sawl polisi ar gyfer ffyrdd a fydd yn arwain at fanteision uniongyrchol i deithio llesol.

### Fframwaith diogelwch ar y ffyrdd

Rydym yn datblygu fframwaith diogelwch newydd ar y ffyrdd er mwyn cefnogi ein dull Gweledigaeth Sero o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd, yn seiliedig ar y gred nad oes yr un farwolaeth nac anaf difrifol yn dderbyniol ar ffyrdd.  Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran hygyrchedd a diogelwch fel awdurdod priffyrdd ac yn ategu ein gwaith ar deithio llesol, ailddyrannu gofod ffyrdd a therfynau cyflymder.

### Mynd i'r afael â phroblem parcio ar balmentydd a rhwystrau ar ffyrdd

Byddwn yn annog creu rhagor o fannau lle y gall pobl gerdded neu olwyno yn ddidrafferth heb orfod camu i'r lôn gerbydau am fod cerbyd wedi'i barcio ar y palmant.  Rydyn ni’n bwriadu ymgynghori ar roi pwerau gorfodi sifil newydd a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblem parcio ar balmentydd yn eu hardaloedd.  Bydd gweithgor sy'n cynnwys pob rhanddeiliad yn drafftio canllawiau i awdurdodau lleol cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym er mwyn helpu i sicrhau y caiff dull gweithredu cyson ei fabwysiadu ledled Cymru.

## Terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig

Yn 2023, gwnaethon ni gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig, a newidiodd y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya mewn ardaloedd adeiledig. Mae gostwng cyflymderau yn lleihau nifer y gwrthdrawiadau, yn achub bywydau ac yn helpu i wella ansawdd bywyd, a fydd yn gwneud ein strydoedd a'n cymunedau yn fwy diogel a chroesawgar i feicwyr a cherddwyr ac yn helpu hefyd i leihau ein heffaith amgylcheddol ar yr un pryd. Yn ein hardaloedd peilot, gwelwyd cynnydd o 10% mewn teithio llesol i ysgolion cynradd ar gyfartaledd. Pan gyflwynir y terfyn cyflymder o 20mya a'i ymgorffori'n llawn, daw cyfle i adolygu'r llwybrau ar gyfer teithio llesol yn sgil y gostyngiad yng nghyflymder y traffig.

# Atodiad 1 – Rhaglen o gamau gweithredu

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.1 | Adolygu gweithrediad y Bwrdd Teithio Llesol | 2026 | Llywodraeth Cymru | Bwrdd Teithio Llesol |
| ATDP.2 | Datblygu fframwaith asesu i gael ei gymhwyso i awdurdodau lleol, TrC a Llywodraeth Cymru, er mwyn deall cryfderau, gwendidau a galluoedd cyflawni a chefnogi gwelliannau | 2024 i 2025 | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru | Bwrdd Teithio Llesol |
| ATDP.3 | Datblygu set gryno o dargedau teithio llesol ar ôl cyflwyno Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru a gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau i ddatblygu targedau rhanbarthol a lleol addas. | 2026 | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol | Bwrdd Teithio Llesol |
| ATDP.4 | Dod ag adrannau newydd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i rym a datblygu canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno. | 2024 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.5 | Adolygu a diweddaru TAN18 | 2025 i 2027 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.6 | Sicrhau bod y 'Grŵp Cynghori ar Ddatblygu yn seiliedig ar Leoedd' yn elwa ar y syniadau diweddaraf am deithio llesol | 2024 | Llywodraeth Cymru | |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.7 | Cyflwyno proses cam wrth gam ar gyfer teithio llesol yn unol â'r canllawiau WelTAG diweddaraf | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.8 | Parhau i adolygu'r canllawiau statudol ar y Ddeddf Teithio Llesol | 2024-2027 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol, Y trydydd sector |
| ATDP.9 | Parhau i fuddsoddi yn rhaglen y Gronfa Teithio Llesol â'r un gwerth â chronfa 2023/24 o leiaf, yn amodol ar yr Adolygiad nesaf o Wariant | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.10 | Parhau i reoli a mireinio'r rhaglen grantiau yng nghyd-destun gwaith y Rhaglen Lywodraethu ar foderneiddio grantiau trafnidiaeth | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.11 | Rhoi cymorth a chanllawiau i awdurdodau lleol ar gynnal eu cynlluniau a'u rhaglenni teithio llesol | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.12 | Datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygu barhaus ar gyfer arweinwyr ac ymarferwyr, gan ddarparu'r cyrsiau a'r deunyddiau cyntaf yn 2023 | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Y trydydd sector, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.13 | Sefydlu'r Hyb Teithio Llesol o fewn TrC, gan gynnwys arbenigedd ar reoli rhaglenni a dylunio teithio llesol | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.14 | Cyfeirio at fframweithiau presennol i'w defnyddio mewn cynlluniau teithio llesol | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.15 | Llenwi bylchau yn y fframwaith pan fo angen | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol |
| ATDP.16 | Datblygu fframwaith monitro cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer teithio llesol sy'n cefnogi fframwaith monitro Llwybr Newydd | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Bwrdd Teithio Llesol |
| ATDP.17 | Cyhoeddi data yn flynyddol yn erbyn y dangosyddion yn y fframwaith monitro cenedlaethol ar gyfer teithio llesol, yn amodol ar argaeledd data | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol, Y trydydd sector |
| ATDP.18 | Datblygu canllawiau ar gasglu data ar lefel cynlluniau | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | Y trydydd sector Awdurdodau lleol |
| ATDP.19 | Helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau monitro a gwerthuso teithio llesol | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Y trydydd sector |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.20 | Gwerthuso manteision posibl creu fframwaith neu wasanaeth cenedlaethol ar gyfer ymgymryd â gweithgareddau monitro | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol, Y trydydd sector |
| ATDP.21 | Nodi tref arddangos mewn cydweithrediad ag awdurdod lleol | 2024 | Llywodraeth Cymru | Trafnidiaeth Cymru, Awdurdod lleol |
| ATDP.22 | Datblygu cynllun ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid a'i roi ar waith | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | Awdurdod lleol, Y trydydd sector |
| ATDP.23 | Datblygu cynllun monitro a gwerthuso a sefydlu prosesau monitro llinell sylfaen | 2024 | Trafnidiaeth Cymru, Partner academaidd | Awdurdod lleol |
| ATDP.24 | Datblygu cynllun gweithredu a chyflwyno mesurau | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Awdurdod lleol, Y trydydd sector |
| ATDP.25 | Ymgymryd â gwaith monitro a gwerthuso parhaus | 2024 i 2027 a thu hwnt | Trafnidiaeth Cymru, Partner academaidd | Awdurdod lleol |
| ATDP.26 | Sefydlu rhaglen o gynlluniau braenaru ar y cyd ag awdurdodau lleol | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | Awdurdodau lleol, |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Tîm Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru,<br>Asiantiaid Cefnffyrdd |
| ATDP.27 | Datblygu a chyflwyno rhaglen fraenaru | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Awdurdodau lleol,<br>Tîm Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru,<br>Asiantiaid Cefnffyrdd |
| ATDP.28 | Datblygu cynllun monitro a gwerthuso braenaru ac ymgymryd â gwaith monitro yn unol â'r cynllun | 2024 i 2027 a thu hwnt | Trafnidiaeth Cymru | Awdurdodau lleol,<br>Tîm Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru,<br>Asiantiaid Cefnffyrdd |
| ATDP.29 | Datblygu ymhellach ein hymgyrch a gwefan gyfathrebu genedlaethol 'Gweithredu ar Newid Hinsawdd' | 2024 i 27 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.30 | Ymgorffori teithio llesol mewn ymgyrchoedd ategol | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.31 | Yn dilyn y newidiadau i reolau'r ffordd fawr, hyrwyddo'r angen i roi lle i ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed | 2024 | Llywodraeth Cymru | Y trydydd sector,<br>Gwasanaethau brys |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.32 | TrC i annog y defnydd o deithio llesol yn ei ymgyrchoedd trafnidiaeth gyhoeddus | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.33 | Cyhoeddi pecyn cymorth hyrwyddo yn 2024 i gefnogi awdurdodau lleol i ymgysylltu â'u cymunedau ynghylch teithio llesol a'i gadw'n gyfredol | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Y trydydd sector |
| ATDP.34 | Parhau i fireinio MapDataCymru er mwyn gwella profiad defnyddwyr ac ystyried y posibilrwydd o ddarparu'r data at ddibenion eraill | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru |
| ATDP.35 | Gwneud gwelliannau i rwydweithiau teithio llesol awdurdodau lleol ac adrodd arnynt | 2024 i 2027 | Awdurdodau lleol | Trafnidiaeth Cymru |
| ATDP.36 | Gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod gwelliannau i amodau teithio llesol yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau priffyrdd | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru | Awdurdodau Lleol, Cydbwyllgorau Corfforedig |
| ATDP.37 | Cynllunio a darparu llwybrau teithio llesol strategol ar draws ffiniau | 2024 i 2027 | Cydbwyllgorau Corfforedig, Awdurdodau lleol | Trafnidiaeth Cymru |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.38 | Datblygu ymhellach pecyn seiliedig ar fapiau i helpu awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r gwaith o gyflawni eu rhwydweithiau teithio llesol | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol |
| ATDP.39 | Gwneud gwelliannau i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru, Sustrans | Llywodraeth Cymru |
| ATDP.40 | Darparu ymyriadau ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a llwybrau cyfagos a'u hintegreiddio â rhwydweithiau awdurdodau lleol | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru |
| ATDP.41 | Dileu rhwystrau ffisegol ar lwybrau teithio llesol, lle y bo modd | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol, Sustrans | |
| ATDP.42 | Sefydlu proses adolygu dyluniadau a chynnal adolygiadau arbenigol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn dyluniadau | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | Awdurdodau lleol |
| ATDP.43 | Cyflwyno prosiect peilot i ddarparu ‘hangars’ beiciau ar y stryd | 2024 | Trafnidiaeth Cymru, Awdurdodau lleol | |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.44 | Monitro a gwerthuso cynllun benthyciadau e-feiciau ac e-feiciau cargo E-symud | 2023 | Sustrans | |
| ATDP.45 | Cefnogi'r broses o drosglwyddo fflydoedd e-feiciau ac e-feiciau cargo E-symud i fodel gweithredu cynaliadwy tymor hir | 2024 | Sustrans | |
| ATDP.46 | Cynllunio ar gyfer sefydlu cynllun benthyciadau di-log ar gyfer prynu e-feiciau neu e-feiciau cargo | 2024 i 2025 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.47 | Cefnogi sefydliadau nid-er-elw sy'n darparu hyfforddiant a mynediad at feiciau a beiciau cynhwysol | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.48 | Creu cyfeiriadur a sefydlu fforwm ar gyfer gwasanaethau/sefydliadau â beiciau cynhwysol ac wedi'u haddasu ledled Cymru | 2024 | Y trydydd sector | Llywodraeth Cymru |
| ATDP.49 | Archwilio amrywiaeth o fodelau i ehangu argaeledd beiciau i'w llogi | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru,<br>Awdurdodau lleol |
| ATDP.50 | Gwella llwybrau teithio llesol i gyfleusterau teithio llesol ac ohonynt mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru,<br>Awdurdodau lleol | Network Rail<br>Gweithredwyr trafnidiaeth |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.51 | Cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer beiciau ar yr holl drenau sy'n rhan o fflyd TrC gydag uchelgais o ddarparu dau le fesul cerbyd, ar gyfartaledd | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.52 | Asesu'r potensial i wella cyfleusterau storio beiciau ar wasanaethau TrawsCymru a gwasanaethau bysiau yn y dyfodol a ddarperir gan TrC | 2024 i 2027 | Trafnidiaeth Cymru | Llywodraeth Cymru,<br>Gweithredwyr trafnidiaeth |
| ATDP.53 | Ymgorffori teithio llesol yn llwyfan tocynnu integredig TrC | 2024 | Trafnidiaeth Cymru | |
| ATDP.54 | Ehangu cyrhaeddiad rhaglenni hyfforddiant cerdded a beicio mewn ysgolion | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol,<br>Darparwyr hyfforddiant |
| ATDP.55 | Gwella cysondeb y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio | 2024 i 2026 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol,<br>Darparwyr hyfforddiant |
| ATDP.56 | Ehangu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant beicio cynhwysol ac annog camau i ehangu hyfforddiant y tu allan i leoliadau ysgol, gan gynnwys darparu hyfforddiant beicio i oedolion | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol,<br>Darparwyr hyfforddiant,<br>Y trydydd sector |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.57 | Cyhoeddi Canllawiau ar Strydoedd Ysgolion i awdurdodau lleol | 2024 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.58 | Parhau i fuddsoddi yn y Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol |
| ATDP.59 | Peilot i gysoni prosesau rheoli'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau â rhai'r Grant Teithio Llesol | 2024 i 2025 | Llywodraeth Cymru | Trafnidiaeth Cymru |
| ATDP.60 | Cefnogi mentrau teithio llesol mewn ysgolion, megis y rhaglen Teithiau Iach, y Rhaglen Cerdded i'r Ysgol, lleoedd i barcio beiciau/sgwteri a fflydoedd o feiciau | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol,<br>Y trydydd sector |
| ATDP.61 | Caffael rhaglen olynol i hyrwyddo teithio llesol mewn ysgolion | 2024 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.62 | Cefnogi'n eang y gwaith o ddatblygu cynlluniau teithio llesol mewn ysgolion a gwneud Cynllun Teithio Llesol i Ysgolion yn amod o'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru | Sustrans,<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru,<br>Partneriaid addysg |
| ATDP.63 | Helpu i gyflwyno'r Siarter Teithio Iach ymhellach i gyflogwyr yng Nghymru | 2024 i 2027 | Llywodraeth Cymru,<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Amserlen | Cyfrifoldeb: arwain | Cyfrifoldeb: cefnogi / cynghori |
|---|---|---|---|---|
| ATDP.64 | Datblygu strategaeth diogelwch ar y ffyrdd newydd er mwyn cefnogi Gweledigaeth Sero | 2024 i 2025 | Llywodraeth Cymru | |
| ATDP.65 | Ymgynghori ar gyflwyno pwerau gorfodi sifil newydd ar gyfer awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phroblem parcio ar balmentydd yn eu hardaloedd | 2024 i 2025 | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau lleol |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government